| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

321/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS1**

P.M. DYDD LLUN, 5 Mehefin 2006

(1 awr)

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| 1 | 16 | |
| 2 | 16 | |
| 3 | 18 | |
| ACY | 3 | |
| Cyfanswm | 53 | |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr ar ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig, h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

**1. Mae'r *Mattress Doctor* yn ehangu drwy drwyddedu/fasnachfreintio** *(franchising)*

Roedd y cyn-gyfrifydd Bryan Walters a'i gydweithiwr busnes Bruce King yn edrych ar wahanol ddewisiadau busnes. Roedd gwraig Bruce yn dioddef o asthma ac yn eu hymchwil daethant ar draws busnesau yn yr Almaen ac UDA oedd yn glanhau matresi i geisio cael gwared â llau llwch *(dust mites)* a lleddfu'r symptomau asthmatig. Gwelsant nad oedd neb yn rhedeg busnes o'r fath yn y DU, lle mae cyfraddau alergedd yn uwch nag yn unman arall yn Ewrop, ac felly ganwyd y *Mattress Doctor*.

Roedd y busnes yn gwneud yn dda iawn a dechreuodd Bruce a Bryan ystyried ei gynyddu. Gwnaethon nhw benderfynu mai trwyddedu/masnachfreintio fyddai'r llwybr mwyaf addas ar gyfer ehangu. Mae **trwydded/masnachfraint** *Mattress Doctor* yn costio o tua £8000 ac mae tâl misol o £250 i dalu am atgyweirio ac amnewid cyfarpar a chymorth parhaus.

Eu prif amcan busnes yw twf, ac o fewn blwyddyn roedd ganddynt 24 o drwyddedau *(franchises)* yn y DU gyda'r nod o gyrraedd 100 o fewn y tair blynedd nesaf.

*Addaswyd: Franchising, Working Lunch BBC*

*(a)* Ar wahân i dwf, amlinellwch **ddau** amcan busnes arall a allai fod gan y *Mattress Doctor*. [4]

(i) ..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

(ii) ..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

..............................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Eglurwch y buddion *(benefits)* i'r trwyddedwyr *(franchisors)* **a'r** trwyddedeion *(franchisees)* wrth weithredu busnes fel y *Mattress Doctor*. [8]

*(c)* Eglurwch yn gryno **ddwy** broblem y gall Bruce a Bryan eu hwynebu wrth weithredu fel trwyddedwyr. [4]

(i)

(ii)

**Cyfanswm Marciau**

## 2. Dig ynghylch cynnydd ym mhrisiau nwy

Cyflenwi nwy oedd un o'r nifer o ddiwydiannau a oedd yn rhan o raglen **wladoli** *(nationalisation)* y Llywodraeth ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd. Cafodd ei wladoli yn y pen draw yn 1948. Mewn gwirionedd, felly, roedd gan y Llywodraeth **fonopoli** o'r diwydiant nwy a barhaodd tan 1986 pan basiodd y Llywodraeth Geidwadol ddeddfwriaeth i breifateiddio'r diwydiant unwaith eto.

Mae'r cynnydd ym mhris nwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar, cynnydd ymhell uwchlaw cyfradd chwyddiant, wedi digio defnyddwyr diwydiannol a defnyddwyr domestig. Mae cynrychiolwyr y diwydiant gwneud gwydr, sy'n dibynnu'n helaeth ar ddefnyddio egni, wedi mynd i San Steffan i geisio perswadio Aelodau Seneddol i wneud rhywbeth ynglŷn â'r broblem.

Dywedodd David Watkins, perchennog tŷ yn Swydd Buckingham, wrth y BBC y bydd ei fil blynyddol oddi wrth Nwy Prydain yn cynyddu £130 yn dilyn y cynnydd diweddar. Mae'n derbyn ei fod yn gallu chwilio am brisiau rhatach, ond mae'n nodi hefyd, yn dilyn dadreoli a phreifateiddio, fod gan y diwydiant chwe chyflenwr yn unig, sydd ar hyn o bryd yn rheoli'r farchnad. Hefyd, mae'n ymddangos mai un o'r problemau mwyaf yw hyn: pan fydd cwsmer yn ymuno â chyflenwr newydd, bydd hwnnw'n codi ei brisiau ar unwaith. Mae'n ymddangos bod hyn yn mynd yn groes i un o'r rhesymau dros **breifateiddio** y diwydiant nwy ugain mlynedd yn ôl.

*Addaswyd: Newyddion y BBC, Hydref 2005*

*(a)* Beth yw ystyr y term *gwladoli*? [2]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

*(b)* Gan gyfeirio at ddiwydiannau arbennig, eglurwch y dadleuon o blaid *preifateiddio*. [6]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(*c*) Trafodwch y farn bod *monopoli*, ym mha ddiwydiant bynnag, yn annymunol bob amser. [8]

**Cyfanswm Marciau**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## 3. Mae busnesau'n cyfrif cost digwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth

Mae nifer o fusnesau'r DU wedi teimlo effaith *(impact)* **dylanwadau allanol** ar eu gweithgareddau yn 2005. Ergydiwyd yn wael ar werthiant *British Airways* gan y ffrwydriadau yn Llundain ym mis Gorffennaf, yn ogystal â streiciau gwyllt *(wildcat)* y gweithwyr arlwyo. Mae *Matalan*, yr adwerthwr, wedi dioddef oherwydd problem wahanol. Meddai'r dadansoddwr John Stevenson, brocer yn *Share Capital*, 'Rydym yn disgwyl y bydd masnachu cyfredol yn *Matalan* wedi gwaethygu, o ganlyniad i'r tywydd mwyn ym misoedd Medi a Hydref, yn enwedig a derbyn y duedd bod defnyddwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar **anghenion** yn hytrach na **chwant** *(wants)* ar hyn o bryd'.

*Addaswyd: Western Mail, 31 Hydref 2005*

*(a)* Eglurwch ystyr y termau *anghenion* a *chwant*. [4]

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

*(b)* Nodwch ac eglurwch effaith **dau** *ddylanwad allanol*, ar wahân i'r rhai sy'n cael eu crybwyll yn y testun, ar adwerthwyr fel *Matalan*. [6]

(i) ....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

(ii) ....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Trafodwch y farn bod cyfundrefnau *nad ydynt yn amcanu at wneud elw* yn chwarae rhan yr un mor bwysig â chyfundrefnau *sy'n amcanu at wneud elw*, o ran diwallu anghenion a chwant y gymdeithas. [8]

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................................................................

**Cyfanswm Marciau**